CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg: 29 Mawrth 2023

Cofnod o gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar 29 Mawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 27 Gorffennaf 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 27 Gorffennaf 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cofnod**

**Crynodeb o’r Pwyntiau Gweithredu**

**Pwyntiau gweithredu**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cofnod

## Yn bresennol

Jeremy Miles AS: Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyfed Edwards: Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhys Jones: Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhian Huws Williams: Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Meleri Davies: Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Lowri Morgans: Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Enlli Thomas: Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Andrew White: Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Bethan Webb: Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Seimon Brooks: Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Ysgrifenyddiaeth: Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Aelodau staff Is-adran Cymraeg 2050 (arsylwi'n unig): Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Croeso gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050

Croesawyd pawb i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol am strwythur y Cyngor yn ogystal â thrafod awgrymiadau am bynciau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, gan gynnwys estyn gwahoddiad i swyddog o’r Adran Iechyd i drafod heriau maes iechyd a’r Gymraeg.

Trafodwyd canlyniadau diweddaraf Cyfrifiad 2021 o ran y Gymraeg sef ystadegau yn ymwneud ag iaith a hil / ethnigrwydd gyda. Cytunwyd y byddai’r Cyngor yn trafod y mater yn fanylach yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Nodwyd y byddai’n fuddiol gwahodd Rheolwr Rhaglen Arfor i un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol er mwyn cael diweddariad ar y gwaith hwn.

# Crynodeb o’r Pwyntiau Gweithredu

## Cam Gweithredu 1

Ysgrifenyddiaeth i drefnu trafodaeth ar ddata diweddaraf Cyfrifiad 2021 o ran y berthynas rhwng y Gymraeg â hil / ethnigrwydd yn un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

## Cam Gweithredu 2

Ysgrifenyddiaeth i wahodd swyddog o’r Adran Iechyd i drafod heriau maes

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

iechyd a’r Gymraeg i un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

## Cam Gweithredu 3

Ysgrifenyddiaeth i wahodd Rheolwr Rhaglen Arfor i un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

[Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ymuno â’r cyfarfod ac yn cymryd y gadair]

## Eitem 2: gair o groeso gan y Gweinidog

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Cafwyd diweddariad gan y Gweinidog ar ddatblygiadau 'Rhaglen Waith Cymraeg 2050' ers y cyfarfod diwethaf.

## Eitem 3: Papur Gwyn, Bil Addysg Gymraeg: diweddariad a thrafodaeth

Cafwyd trafodaeth yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn: Cynigion ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg yn gynharach yn ystod yr wythnos.

Diolchodd y Gweinidog yn swyddogol i bawb sydd wedi bod yn gweithio ar y Papur Gwyn am eu gwaith caled.

Roedd y drafodaeth a ddilynodd yn ffocysu yn bennaf ar rôl y gweithlu addysg i wireddu amcanion y Bil.

Eglurodd y Gweinidog fod Pennod 4 yn cynnig y bydd disgwyl i Weinidogion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cymru bennu targedau cenedlaethol ar gyfer nifer yr athrawon sydd eu hangen er mwyn hwyluso'r twf mewn addysg Gymraeg. Ni fydd y targed yn y Bil, yn hytrach, bydd y Bil yn gosod y fframwaith.

Nodwyd pwysigrwydd:

- Cryfhau'r cyfraniad sy'n rhaid i brifysgolion a'r sector ôl-16 ei wneud o ran hyfforddi athrawon drwy osod targedau mwy pendant o ran y Gymraeg.
- Trafodwyd yr effaith ar y gweithlu a'r mecanweithiau sydd wedi eu gosod er mwyn cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu dechrau dysgu siarad Cymraeg.
- Yr angen i gynllunio'r gweithlu yn ofalus.

Trafodwyd hefyd:

- Pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar y papur gwyn gyda'r rhanddeiliaid a thrafod ei gynnwys gyda phlant a phobl ifanc a'r holl randdeiliaid y bydd y Bil yn effeithio arnynt maes o law.
- Pwysigrwydd canolbwyntio ar drochi cynnar.
- Nodwyd bod y Bil yn cymryd camau a fydd yn lleihau'r bwlch sylweddol o ran deilliannau ieithyddol disgyblion rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a Saesneg.

## Eitem 4: cyflwyniad ar beilot Dwyfor (ail gartrefi a fforddiadwyedd)

Cafwyd cyflwyniad gan un o swyddogion y Llywodraeth ar beilot Dwyfor sydd wedi bod yn weithredol ers y llynedd. Cytunwyd i rannu'r papur yn nodi crynodeb diweddaraf o waith y peilot gydag aelodau'r Cyngor. Nododd y swyddog ei fod yn hapus i drafod gydag unrhyw un sydd am wybodaeth bellach.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Cam Gweithredu 4

Ysgrifenyddiaeth i rannu papur sy’n crynhoi Peilot Dwyfor gyda’r aelodau.

## Eitem 5: Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Trafodaeth

Trosglwyddwyd yr awenau i Seimon Brooks, Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, i roi diweddariad ar waith y Comisiwn hyd yma:

- Diolchodd i bawb am eu sylwadau i’r **alwad am dystiolaeth**. Cadarnhaodd y bydd crynodeb o’r ymatebion yn cael ei gyhoeddi maes o law ac y bydd yr Aelodau yn cael copi.
- Cytunodd i roi diweddariadau rheolaidd i’r Cyngor Partneriaeth yn ôl y galw yng nghyfarfodydd y dyfodol.
- Nododd y bydd y Comisiwn yn awr yn mynd ati i baratoi papur safbwynt a fydd yn cael ei gyhoeddi yn Eisteddfod yr Urdd. Bydd y papur yn crynhoi egwyddorion cynllunio ieithyddol o safbwynt cynllunio cymdeithasol, yn ogystal â thrafod ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol a chanlyniadau’r cyfrifiad.
- Y bwriad yw cynnal cyfres o gyfarfodydd rhwng Eisteddfod yr Urdd a’r Eisteddfod Genedlaethol, gyda’r gwaith ysgrifennu manwl yn digwydd rhwng mis Awst a Rhagfyr.
- Cafwyd trafodaeth bellach ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol a sut y gallai’r ardaloedd hyn gael eu dynodi.

### Cam Gweithredu 5

Ysgrifenyddiaeth i anfon copi o grynodeb o’r ymatebion i’r alwad am dystiolaeth a’r papur safbwynt at yr aelodau unwaith caiff ei gyhoeddi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Cam Gweithredu 6

Ysgrifenyddiaeth i wahodd Seimon Brooks i gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn rheolaidd er mwyn trafod cynnydd y gwaith.

## Eitem 6: unrhyw fater arall

Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb y tro nesaf gyda'r lleoliad yn ddibynnol ar galendr y Gweinidog. Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau'r manylion maes o law.

### Cam Gweithredu 7

Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau manylion y cyfarfod nesaf gyda'r Aelodau maes o law.

# Pwyntiau gweithredu

## Cam gweithredu 1

### Pwynt gweithredu

Ysgrifenyddiaeth i drefnu trafodaeth ar ddata diweddaraf Cyfrifiad 2021 o ran y berthynas rhwng y Gymraeg â hil/ethnigrwydd yn un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### I bwy?

Ysgrifenyddiaeth.

### Wedi cwblhau?

Oren: Bydd gwahoddiad yn cael ei anfon at un o gyfarfodydd y dyfodol.

## Cam gweithredu 2

### Pwynt gweithredu

Ysgrifenyddiaeth i wahodd swyddog o’r Adran Iechyd i drafod heriau maes iechyd a’r Gymraeg yn un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

### I bwy?

Ysgrifenyddiaeth.

### Wedi cwblhau?

Oren: Bydd gwahoddiad yn cael ei anfon at un o gyfarfodydd y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cam gweithredu 3

### Pwynt gweithredu

Ysgrifenyddiaeth i wahodd Rheolwr Rhaglen Arfor i un o gyfarfodydd  y dyfodol.

### I bwy?

Ysgrifenyddiaeth.

### Wedi cwblhau?

Oren: Bydd gwahoddiad yn cael ei anfon at un o gyfarfodydd y dyfodol.

## Cam gweithredu 4

### Pwynt gweithredu

Ysgrifenyddiaeth i rannu papur sy’n crynhoi Peilot Dwyfor gyda’r aelodau.

### I bwy?

Ysgrifenyddiaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Wedi cwblhau?

Gwyrdd: Papur wedi ei rannu.

## Cam gweithredu 5

### Pwynt gweithredu

Ysgrifenyddiaeth i anfon copi o grynodeb o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth a'r papur safbwynt at yr aelodau unwaith caiff ei gyhoeddi.

### I bwy?

Ysgrifenyddiaeth.

### Wedi cwblhau?

Gwyrdd: Papurau wedi'u rhannu.

## Cam gweithredu 6

### Pwynt gweithredu

Ysgrifenyddiaeth i wahodd Seimon Brooks i gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn rheolaidd er mwyn trafod cynnydd y gwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### I bwy?

Ysgrifenyddiaeth.

### Wedi cwblhau?

Gwyrdd: SB yn mynychu cyfarfod 13 Gorffennaf 2023.

## Cam gweithredu 7

### Pwynt gweithredu

Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau manylion y cyfarfod nesaf gyda'r Aelodau maes o law.

### I bwy?

Ysgrifenyddiaeth.

### Wedi cwblhau?

Gwyrdd.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-29-mawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.